

BWYD A DIOD CYMRU
YMWELIAD DATBLYGU
MASNACH

DUBLIN, IRELAND

17-20 Medi 2019

Prif Sectorau

Bwyd a Diod

Amserlen

Dydd Mawrth 17 Medi
Cyrraedd Dulyn

Dydd Mercher 18 Medi
Briffio'r Farchnad ac
ymweld â siopau

Dydd Iau 19 Medi
Rhaglen cwrdd â'r prynwr,
digwyddiad rhwydweithio
â'r diwydiant

Dydd Gwener 20 Medi
Amser ychwanegol
ar gyfer cyfarfodydd,
dychwelyd i Gymru

MYND Â CHYMRU I'R BYD

Dyddiad cau:
21 Mehefin 2019

I gael ffurflen gais
anfonwch e-bost at:
**angharad.evans@
bic-innovation.com**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llun gan Cathal Mac an Bheatha ar Unsplash

Y Cynnig

Hoffem eich gwahodd i fod yn rhan o Ymweliad Datblygu MASNACH a gefnogir gan Bwyd a Diod Cymru i Iwerddon.

Pam Iwerddon?

- Marchnad allforio lewyrchus ar gyfer nwyddau'r DU ar garreg eich drws!
- Marchnad Saesneg ei hiaith o 4.6 miliwn o bobl, yr un parth amser, gerllaw er hwylustod rheoli
- Fframwaith rheoleiddio a chyfreithiol tebyg gyda chysylltiadau trafndiaeth da
- Mae 20% o allforion bwyd a diod Cymru yn mynd i Iwerddon
- Marchnad o ddefnyddwyr addysgedig a soffistigedig
- Y llynedd gwnaeth economi Iwerddon dyfu bron i 7% (Swyddfa Ystadegau Canolog)
- Twf mewn opsiynau bwyd iach, gwell cyfleustra, brandiau cwrw meicro, label preifat
- Marchnad allforio gychwynnol neu arbrofol ddelfrydol

Y Gost

Mae'r gost i gymryd rhan yn yr Ymweliad Datblygu MASNACH pwrpasol iawn hwn yn cael ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a'r gost fydd **£750 + TAW y person***. Mae hynny'n cynnwys:

- Cymorth cyn yr ymweliad, gan gynnwys briffio llawn
 - Anfon samplau i Ddulyn
 - Bydd manylion a brand eich cwmni yn cael eu cynnwys yn y catalog o gynhyrchwyr a anfonir at brynwyr a dosbarthwyr posibl
 - Briffio'r farchnad, digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr, digwyddiad rhwydweithio â'r diwydiant, ymweliadau â siopau
 - Llety gwely a brecwast am 3 noson yn Nulyn drwy asiantaeth deithio enwebedig Llywodraeth Cymru
 - Cymorth a chngor cyn yr ymweliad, yn ystod yr ymweliad ac ar ôl yr ymweliad
- Bydd angen i chi drefnu eich taith eich hun i Iwerddon, gan dalu'r costau teithio, er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf i chi.

*Yn amodol ar y meini prawf cymhwysra. Mae'r cynnig hwn ar gael i ddau gynrychiolydd o bob cwmni. Bydd gofyn i unrhyw gynrychiolwyr ychwanegol dalu'r gyfradd lawn heb gymhorthdal – ar gael ar gais. Dylai ymgeiswyr nodi fod y cymorth a ddarperir gan y cyllid hwn yn cyfrif fel cymorth gwladwriaethol de minimis yn ôl diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd.